

CYNLLUN GWEITHREDU LHDTTC+ DRAFFT – ASESIAID EFFAITH

ATODIAD A: ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch post CRIA@llyw.cymru

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Fel pob plentyn a pherson ifanc, mae gan blant a phobl ifanc LHDTTC+ hawl i fwynhau eu hawliau dynol. Mae arnynt angen amgylcheddau diogel, cefnogol ac ymgeleddgar sy'n meithrin eu doniau, eu diddordebau a'u galluoedd unigol i'r eithaf er mwyn iddynt gyflawni eu potensial a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Nodweddir plentyndod a glasod yn aml fel cyfnodau heriol o fywyd i bawb ond gall y profiadau hyn gael eu dwysáu gan yr anfantais, y gwahaniaethu a'r anghydraddoldebau y mae plant a phobl ifanc LHDTTC+ yn eu hwynebu sy'n benodol i'w cyfeiriadedd rhywiol amrywiol a'u hunaniaethau rhywedd. Er enghraifft, gwyddom fod llawer o blant a phobl ifanc LHDTTC+ yn debygol o brofi anawsterau ychwanegol sy'n llesteirio rhoi eu hawliau dynol ar waith:

- **Bwlio:** Gwyddom fod bwlio ar sail hunaniaeth yn parhau i fod yn fater o bryder sylweddol i blant a phobl ifanc yng Nghymru¹. Mae 54% o ddisgyblion LHDT a 73% o ddisgyblion traws wedi cael profiad o gael eu bwlio ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaethau rhywedd². Mae'r profiadau hyn yn rhoi plant a phobl ifanc LHDTTC+ mewn mwy o berygl o fod â gwaeth iechyd meddwl, o fethu addysg, o gael cyrhaeddiad addysgol isel, ac o deimlo eu bod wedi'u heithrio a heb gymorth³.

- **Troseddau Casineb ac amgylcheddau gelyniaethus yn y cyfryngau:** mae pobl LHDTTC+ yn profi lefelau anghymesur o droseddau casineb⁵. Canfu ymchwil a wnaed gan Stonewall yn 2017:

¹ Albert Kennedy Trust (2015) LGBT YOUTH HOMELESSNESS: A UK NATIONAL SCOPING OF CAUSE, PREVALENCE, RESPONSE, AND OUTCOME. <https://www.akt.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=c0f29272-512a-45e8-9f9b-0b76e477baf1>

² Stonewall Cymru (2017) *Adroddiad Ysgol Cymru*. <https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/schoolreportcymru>

³ Estyn (2020) *Dathlu Amrywiaeth a Hyrwyddo Cynhwysiant* https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Celebrating_diversity_and_promoting_inclusion_en.pdf

⁴ CCFW (2020) *Adroddiad Comisiynwyr Plant teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. <https://www.complancymru.org.uk/adroddiad-comisiynwyr-plant-i-bwyllgor-cu-2020/>

⁵ UK Home Office (2017) *Official Statistics Hate crime, England and Wales, 2016 to 2017* <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2016-to-2017>

- fod 1 o bob 5 pump o bobl LHDT wedi cael profiad o drosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth o ran rhywedd yn y 12 mis blaenorol
- fod 2 o bob pump o bobl draws wedi cael profiad o drosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd yn y 12 mis blaenorol
- na chafodd pedwar o bob pum trosedd a digwyddiad casineb gwrth-LHDT eu hadrodd, gyda phobl LHDT iau yn arbennig o amharod i fynd at yr heddlu⁶.

Yn fyd-eang, mae tuedd gynyddol bryderus o ddigwyddiadau gwrth-LHDT+ yn digwydd yn amlach, fel ymosodiadau ar ddigwyddiadau cyhoeddus LHDT+ gan gynnwys gorymdeithiau Pride, datganiadau o barthau 'di-LHDT+' honedig, a bygythiadau homoffobig mewn dathliadau carnifal. Mae sefydliadau cymdeithas sifil sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl LHDT+ yn adrodd fwyfwy eu bod yn wynebu gelyniaeth, gan gyd-fynd â'r cynnydd yn y mudiad gwrth-rywedd (a gwrth-LHDT+)⁷. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ac ni ddylai'r cyfryngau gynhyrchu deunydd sy'n achosi niwed i blant a phobl ifanc. Am eu bod yn llywio barn, mae gan y cyfryngau ddylanwad enfawr ar y ffordd rydym yn meddwl am rywedd a rhywioldeb, ac felly mae ganddynt ddyletswydd i gyflwyno'r materion hyn mewn ffordd deg a chytbwys. Drwy bortreadu pobl LHDT mewn ffordd negyddol, yn fwriadol ai peidio, mae rhagfarn yn cael ei ymledu i gymdeithas drwy'r cyfryngau, gan gyrraedd ysgolion a rhwydweithiau cymdeithasol⁸.

- **Mynediad at wybodaeth a chymorth:** Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth ffeithiol am rywioldeb ac amrywiaetho ran rhywedd. Dylai ymdrechion gwrthfwlio gael eu hategu gan addysg ar gydraddoldeb, rhywedd a rhywioldeb. Mae Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar yr hawl i addysg wedi tynnu sylw at hawl plant i gael addysg rywiol gynhwysfawr heb wahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhywedd⁹. Mae angen cwestiynu stereoteipiau am rywedd a rhywioldeb mewn ysgolion. Weithiau defnyddir amddiffyn plant fel dadl i rwystro plant rhag cael gwybodaeth am bobl LHDT+. Nid oes tystiolaeth y byddai lledaenu gwybodaeth sy'n argymhell agwedd gadarnhaol tuag at bobl LHDT+ yn cael effaith andwyol ar blant. Yn hytrach, mae er lles pennaf plant i gael gwybod am rywioldeb ac amrywiaeth o ran rhywedd.

- **Teulu, tai a digartrefedd:** Mae llawer o blant a phobl ifanc LHDT+ yn profi rhagfarn a thrais o fewn eu teuluoedd eu hunain. Mae derbyn plant a phobl ifanc LHDT+ yn dal i fod yn anodd i lawer o rieni ac aelodau eraill o'r teulu. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyd at

⁶ Stonewall (2017) *LGBT in Britain: Hate Crime and Discrimination*

https://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_hate_crime.pdf

⁷ EU Agency for Fundamental Rights (2017) *Challenges facing civil society organisation working on human rights in the EU.*

https://fra.europa.eu/sites/default/files/fra_uploads/fra-2018-challenges-facing-civil-society_en.pdf

⁸ CCFW (2016) *Challenging the Negative Media Reporting of the LGBT community.* <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/LGBT-media-reporting-proof-English-final-v2-2.pdf>

⁹ UN General Assembly (2010) *Report of the United Nations Special Rapporteur on the right to education.* https://www.right-to-education.org/sites/right-to-education.org/files/resource-attachments/UNSR_Sexual_Education_2010.pdf

chwarter y bobl ifanc sy'n ddigartref yn LHDTTC+¹⁰. Pan na all plant a phobl ifanc LHDTTC+ ddibynnu ar gefnogaeth eu teuluoedd, mae'n bosibl mai'r canlyniad fydd eu bod wedi'u hymyleiddio'n hirdymor gyda chost uchel i iechyd a lles unigolion.

• **Annibyniaeth, hunanbenderfyniaeth, cydnabyddiaeth a mynediad at wasanaethau:** Mae plant a phobl ifanc traws a rhai nad ydynt yn ddeuaidd yn wynebu rhwystrau penodol wrth arfer eu hawl i hunanbenderfyniaeth. Gall plant a phobl ifanc traws ac anneauidd ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau iechyd a chymorth sy'n benodol i'w rhywedd.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu bod anghenion, anfanteision a nodweddion agored i niwed penodol plant a phobl ifanc LHDTTC+ wedi'u dwysáu ymhellach gan bandemig COVID-19 a'r ystod o fesurau cyfyngol a orfodir er mwyn rheoli lledaeniad coronafeirws^{11 12}.

Felly, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft wedi ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau tystiolaeth ac mae'n bwriadu cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant a phobl ifanc LHDTTC+. Mae'n nodi'r camau pendant yr ydym yn bwriadu eu cymryd i wella bywydau pobl LHDTTC+, i herio gwahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae pobl LHDTTC+ yn ddiogel i fyw ac i garu'n ddilys, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain. Wrth fabwysiadu dull croestoriadol, gydol oes mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn cynnig camau gweithredu trawsbynciol a fwriedir yn benodol i gefnogi hawliau a lles plant a phobl ifanc LHDTTC+ ar draws amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys gwasanaethau addysg, diogelwch, tai, a gwasanaethau iechyd a chymorth.

Mae datblygiad cychwynnol a gwaith drafftio'r cynllun hefyd wedi ystyried Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae wedi helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy grwpiau trafod bord gron rithwir. Cynrychiolwyd nifer o sefydliadau ieuencid LHDTTC+ hefyd yn ein trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd cyfleoedd pellach i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed yn ystod y cam ymgynghori ffurfiol - gyda chefnogaeth fersiwn Hawdd ei Ddeall a fersiwn sy'n addas i bobl ifanc o'r cynllun drafft. Bydd adborth o'r cam ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith pellach wrth ddatblygu'r Asesiad Hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft wedi mabwysiadu dull croestoriadol, gydol oes. Mae'n nodi cyfres o gynigion trawsbynciol a fwriedir yn benodol i gefnogi hawliau a lles plant a phobl ifanc LHDTTC+ ar draws amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys gwasanaethau addysg, diogelwch, tai, a gwasanaethau iechyd a chymorth. Mae effaith gyfunol y Cynllun Gweithredu yn cefnogi egwyddorion arweiniol hawliau plant i barchu,

¹⁰ Albert Kennedy Trust (2015) LGBT YOUTH HOMELESSNESS: A UK NATIONAL SCOPING OF CAUSE, PREVALENCE, RESPONSE, AND OUTCOME. <https://www.akt.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=c0f29272-512a-45e8-9f9b-0b76e477baf1>

¹¹ Hirst, H. (2021) *The Impact of Covid-19 on Young Trans People*. <https://www.liverpool.ac.uk/media/livacuk/law/2-research/ecru/Briefing,Paper,10,-,The,Impact,of,COVID-19,on,Young,Trans,People,-,Hannah,Hirst.pdf>

¹² LGBT Foundation (2020) *Hidden Figures: The Impact of COVID-19 Pandemic on LGBT Communities in the UK*. [Hidden%20Figures-%20The%20Impact%20of%20the%20Covid-19%20Pandemic%20on%20LGBT%20Communities.pdf](https://www.lgbt.foundation/wp-content/uploads/2020/04/Hidden-Figures-The-Impact-of-COVID-19-Pandemic-on-LGBT-Communities-in-the-UK.pdf)

amddiffyn a chyflawni'r hyn sy'n cael ei warantu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- Erthygl 2 – Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
- Erthygl 3 – Lles pennaf y plentyn
- Erthygl 6 – Goroesi a Datblygu
- Erthygl 12 – Hawl i gael llais wrth wneud penderfyniadau.

Er bod yr asesiad effaith hwn yn ystyried rhai camau gweithredu arfaethedig ar lefel uchel ynghyd â'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfanrwydd, mae'n bosibl y bydd angen i adrannau perthnasol gynnal asesiadau o'r effaith ar hawliau plant pellach er mwyn symud camau unigol yn eu blaenau yn ystod oes y cynllun:

Adran o'r Cynllun	Effaith bosibl y cam(au) gweithredu arfaethedig
Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth	<p>Bwriedir i'r camau gweithredu arfaethedig a gynhwysir yn yr adran hon o'r cynllun wella'r amddiffyniad, y gydnabyddiaeth a'r parch a roddir i hunaniaethau LHDTDC+. Wrth wneud hynny, mae'n cydnabod bod gan bobl LHDTDC+ hawl i fwynhau'r un amddiffyniadau a gwarantau hawliau dynol â phawb arall. Felly, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTDC+ drafft yn cefnogi gwireddu llawer o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Er enghraifft:</p> <p>Defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael gennym i wahardd pob agwedd ar therapi trosi LHDTDC+ a cheisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol.</p> <p>Mae arferion a elwir yn 'therapi trosi' yn achosi poen a dioddefaint difrifol i bobl LHDTDC+, gan arwain yn aml at drawma corfforol a seicolegol hirdymor. Yn ôl Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (IESOGI) mae angen amddiffyn plant a phobl ifanc ar frys rhag arferion 'therapi trosi' honedig. Mae'r gymuned wyddonol wedi dadbrofi effeithiolrwydd yr arferion hyn yn gyson, gan eu cysylltu â niwed hirdymor i iechyd corfforol a meddyliol unigolion LHDTDC+. Maent yn andwyo'n llwyr hawliau pobl i urddas, annibyniaeth, iechyd a rhyddid unigolyn i fynegi'i hunaniaeth, ac mewn rhai achosion, mae'n gyfystyr ag artaith a chamdriniaeth¹³. Bydd gwahardd arferion therapi trosi honedig yng Nghymru yn cefnogi:</p>

¹³ UN IESOGI (2020) *Practices of so-called "conversion therapy": Report of the Independent Expert on protection against violence and discrimination based on sexual orientation and gender identity*. <https://undocs.org/A/HRC/44/53>

Adran o'r Cynllun	Effaith bosibl y cam(au) gweithredu arfaethedig
	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 4 – Mesurau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r hawliau • Erthygl 6 – Goroesi a datblygu • Erthygl 8 – Cadw hunaniaeth • Erthygl 14 – Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 19 – Amddiffyniad rhag pob math o gam-drin • Erthygl 24 – Iechyd a gwasanaethau iechyd • Erthygl 30 – Plant sy'n perthyn i leiafrifoedd • Erthygl 34 – Camfanteisio rhywiol • Erthygl 35 – Herwgydio, gwerthu a masnachu plant • Erthygl 36 – Mathau eraill o gamfanteisio • Erthygl 37 - Arteithio ac amddifadu o ryddid • Erthygl 39 – Adferiad o drawma a chamdriniaeth. <p>Mae potensial y gallai rhai deimlo bod gwrthdaro rhwng hawliau ar sail rhyddid crefyddol, mynegiant a chredoau. Fodd bynnag, mae Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd yn argymhell cyflwyno gwaharddiad ar bob math o arferion therapi trosi gan gynnwys pob lleoliad cyhoeddus neu breifat addysgol, iechyd, crefyddol, masnachol, cymunedol neu unrhyw leoliad arall.</p>
Sicrhau Diogelwch Pobl LHDTIC+	<p>Mae pobl LHDTIC+ yn profi lefelau anghymesur o droseddau casineb¹⁴. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, trais a cham-drin. Mae'n debygol y caiff camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â throseddau casineb LHDTIC+ (er enghraifft: <i>Gweithio gyda Phrif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â phartneriaid eraill ym maes cyfiawnder troseddol a chymdeithasol, i ystyried adolygu'r tanadrodd am droseddau casineb LHDTIC+ gyda'r nod o weithredu i wella'r lefelau adrodd ymhellach</i>) effaith gadarnhaol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2 – Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu • Erthygl 8 – Cadw hunaniaeth • Erthygl 12 – Hawl i gael llais wrth wneud penderfyniadau. • Erthygl 19 – Rhyddid rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod • Erthygl 29 – Nodau addysg.

¹⁴ UK Home Office (2017) *Official Statistics Hate crime, England and Wales, 2016 to 2017*.
<https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2016-to-2017>

Adran o'r Cynllun	Effaith bosibl y cam(au) gweithredu arfaethedig
Cartrefi a chymunedau	<p>Gwyddom fod llawer o blant a phobl ifanc LHDTTC+ yn debygol o brofi heriau o ran gallu ymuno mewn grwpiau, cael eu derbyn gan eu teuluoedd, teimlo'n rhan o gymuned a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Camau gweithredu arfaethedig. Mae'r rhan hon o'r Cynllun Gweithredu drafft yn cynnig amrywiaeth eang o fesurau polisi ar draws gwaith ieuencid, tai, diwylliant a chwaraeon â'r bwriedir o gefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6 – Goroesi a datblygu • Erthygl 13 – Yr hawl i gael gwybodaeth • Erthygl 14 – Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 15 – Ymgysylltu • Erthygl 26 – Nawdd cymdeithasol • Erthygl 27 – Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 29 – Nodau addysg • Erthygl 31 – Hamdden, diwylliant, chwaraeon a chwarae. <p>Mae'r adran hon hefyd yn rhoi sylw arbennig i anghenion a manau gwan penodol ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTTC+. Wrth wneud hynny, mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at gefnogi hawliau plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid LHDTTC+ a cheiswyr lloches, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6 – Goroesi a datblygu • Erthygl 8 – Cadw hunaniaeth • Erthygl 19 – Rhyddid rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod • Erthygl 22 – Plant sy'n ffoaduriaid • Erthygl 24 – Iechyd a gwasanaethau iechyd • Erthygl 26 – Nawdd cymdeithasol • Erthygl 27 – Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 39 – Adferiad o drawma a chamdriniaeth
Iechyd a gofal cymdeithasol	<p>Mae gan bobl LHDTTC+ ganlyniadau anghymesur waeth o ran iechyd ac o ran profiadau gofal iechyd. Bwriedir i'r camau arfaethedig fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd hyn a gwella profiad plant a phobl ifanc LGBTQ+ o ofal iechyd ac maent yn cefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2 – Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu

Adran o'r Cynllun	Effaith bosibl y cam(au) gweithredu arfaethedig
	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3 – Lles pennaf y plentyn • Erthygl 6 – Goroesi a datblygu • Erthygl 8 – Cadw hunaniaeth • Erthygl 24 – Iechyd a gwasanaethau iechyd • Erthygl 29 – Nodau addysg
Addysg a Dysgu Gydol Oes	<p>Mae bwlio ar sail hunaniaeth yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol i blant a phobl ifanc yng Nghymru¹⁵. Mae 54% o ddisgyblion LHDT a 73% o ddisgyblion traws wedi cael profiad o fwlio ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaethau rhywedd¹⁶. Mae'r profiadau hyn yn rhoi plant a phobl ifanc LHDT+ mewn mwy o berygl o fod â gwaeth iechyd meddwl, o fethu addysg, o gael cyrhaeddiad addysgol isel, ac o deimlo eu bod wedi'u heithrio a heb gymorth^{17 18}. Mae'r camau gweithredu a gynhwysir yn yr adran hon, er enghraifft: cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb LHDT+-gynhwysol, datblygu canllawiau i gefnogi dysgwyr traws, a dwysáu ymdrechion i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn helpu i gyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2 – Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu • Erthygl 8 – Cadw hunaniaeth • Erthygl 13 – Hawl i gael gwybodaeth ac i ryddid mynegiant • Erthygl 18 – Cyfrifoldebau rhianta • Erthygl 19 – Rhyddid rhag trais, gwahaniaethu a chamdriniaeth • Erthygl 28 – Mynediad at addysg • Erthygl 29 – Nodau addysg. <p>Gall y camau hyn wynebu her ar sail credoau rhywedd-feirniadol, amddiffyn plant, a rhyddid crefyddol. Fodd bynnag, dylai ymdrechion gwrthfwlio gael eu hategu gan addysg ar gydraddoldeb, rhywedd a rhywioldeb. Mae Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar yr hawl i addysg wedi tynnu sylw at hawl plant i addysg rywiol</p>

¹⁵ CCFW (2017) *Stori Sam: Gwrando ar brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru* <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Stori-Sam-1.pdf>

¹⁶ Stonewall Cymru (2017) *Adroddiad Ysgol Cymru*. <https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/schoolreportcymru>

¹⁷ Estyn (2020) *Dathlu Amrywiaeth a Hyrwyddo Cynhwysiant: Arfer da o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT) mewn ysgolion a cholegau* <https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610566457/dathlu-amrywiaeth-hyrwyddo-cynhwysiant-arfer-dda-o-ran-cefnogi-dysgwyr-lesbiaidd-hoyw-deurywiol.pdf>

¹⁸ CCFW (2020) *Adroddiad Comisiynwyr Plant teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. <https://www.complantcymru.org.uk/adroddiad-comisiynwyr-plant-i-bwyllgor-cu-2020/>

Adran o'r Cynllun	Effaith bosibl y cam(au) gweithredu arfaethedig
	<p>gynhwysfawr heb wahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd¹⁹. Mae angen cwstyynu stereoteipiau am rywedd a rhywioldeb mewn ysgolion. Weithiau defnyddir amddiffyn plant fel dadl i rwystro plant rhag cael gwybodaeth am bobl LHDTC+. Nid oes tystiolaeth y byddai lledaenu gwybodaeth sy'n argymhell agwedd gadarnhaol tuag at bobl LHDTC+ yn cael effaith andwyol ar blant. Yn hytrach, mae er lles pennaf plant i gael gwybod am rywioldeb ac amrywiaeth o ran rhywedd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymroi i sicrhau bod gan bob dysgwr yr hawl i fwynhau mynediad llawn at y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal ymgynghoriad ac asesiad effaith sylweddol ar y cynnig polisi hwn yng nghyd-destun rhyddid crefyddol a ffydd. Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid LHDTC+ a chymunedau ffydd i lunio Codau Ymarfer newydd ar y cyd ar gyfer 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' a 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'.</p>
Ymateb i COVID-19	<p>Mae camau gweithredu a oedd â'r bwriad o wella ein dealltwriaeth o'r effaith y mae COVID-19 (a chyfyngiadau cymdeithasol) wedi'i chael ar y boblogaeth LHDTC+, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2 – Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu • Erthygl 4 – Mesurau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r hawliau • Erthygl 24 – Iechyd a gwasanaethau iechyd • Erthygl 26 – Nawdd cymdeithasol.

¹⁹ UN General Assembly (2010) *Report of the United Nations Special Rapporteur on the right to education*. https://www.right-to-education.org/sites/right-to-education.org/files/resource-attachments/UNSR_Sexual_Education_2010.pdf